# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **8 Mai 2019**. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Penny Matthews | **Ward Etholiadol:** | Llansamlet |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Roeddwn yn cynnal cymorthfeydd cyngor gan gynghorydd ac yn mynd i gyfarfodydd Cyfeillion Parc Briallu'n rheolaidd. Helpais i drefnu a chyflwyno diwrnodau hwyl yr haf a'r Nadolig.

Es i i gyfarfodydd grwpiau pobl hŷn Gellifedw a'r Trallwn, a threfnais ginio Nadolig ar y cyd i'r ddau grŵp.

Rwyf yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Trallwn ac rwy'n gweithio'n agos gyda'r pennaeth ar benodi sawl aelod o staff, ymysg pethau eraill.

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r tîm tai mewn perthynas ag adnewyddu nifer o gartrefi yn y ward.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb cynghorwyr yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld cyfrifoldebau'r cynghorwyr yma.
Gallwch weld apwyntiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Sefydlais dudalen gwarchod y gymdogaeth ar Facebook a phostio diweddariadau'n rheolaidd.

Diweddarwyd fy ngwedudalen Llansamlet Labour News yn rheolaidd drwy sôn am ddigwyddiadau lleol a diweddariadau'r cyngor am gau ffyrdd etc.

Es i i gyfarfodydd PACT yn y ward a gweithiais yn agos gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yn yr ardal.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Yr ymgyrch fawr yn yr ardal oedd y cais cynllunio ar gyfer llosgydd yn y ward a'i leoliad a oedd yn agos at y warchodfa natur, yr ysgol Gymraeg leol a chartrefi. Roeddwn yn cefnogi'r preswylwyr wrth ymladd i wrthod y cais, ac mae bellach yn cael ei apelio gyda Chynulliad Cymru.

Roeddwn hefyd wedi cefnogi ymgyrch y preswylwyr i wrthod cais cynllunio ar gyfer caffi Costa yng nghanol ardal â llawer o bobl.

Gofynnwyd hefyd i mi gefnogi cais am linellau melyn ar un heol yn yr ardal.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cefais y fraint o fod yn Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu y Cyngor Dinas a Sir. Rwyf wedi bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r tîm masnach a swyddogion ac mae'r rhain yn gweithio'n dda. Rwyf wedi ymweld â Glanfa Pipehouse ac rwy'n edrych ymlaen at symud i'r fangre newydd yn y dyfodol agos.

Mae trwyddedu'n cynnwys sbectrwm eang, o dacsis i fangreoedd, o HMO i anifeiliaid peryglus, o drwyddedau palmentydd i fasnachu ar y stryd. Mae'r rôl yn eang ond mae'n hynod ddiddorol.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**
Cyflog Uwch (Cadeirydd Pwyllgor): £22,300

Gallwch weld ffurflenni hawlio costau teithio a threuliau cynghorwyr yma.
Gallwch weld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29/01/2020 |